

**Cymru  
Wrth-hiliol**



**An Anti-Racist  
Wales**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

## Aseuadau Effaith Llawn

# Cynnwys

Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc	1
Eglurwch sut y mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant	2

**All** completed Children's Rights Impact Assessments must be sent to the [CRIA@gov.wales](mailto:CRIA@gov.wales) mailbox

# Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc

Yn aml, mae gwraidd anghydraddoldeb i'w gweld mewn plentynod, a bydd hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn gwella cyfleoedd plant heddiw a phlant yfory mewn bywyd. Mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn anelu at fynd i'r afael â hiliaeth, a bydd hynny'n cael effaith gadarnhaol ar fywyd pob plentyn a pherson ifanc, ac o fantais iddynt. Gan fod y camau gweithredu penodol heb eu pennu'n derfynol, rhaid aros i weld y newid mewn arferion a ddaw o ganlyniad i weithredu'r camau hyn.

Bydd yr ymgynghoriad ar gael mewn nifer o ieithoedd, gan gynnwys Cymraeg, Saesneg, Iaith Arwyddion Prydain ac ieithoedd cymunedol eraill. Mae'r ymgynghoriad yn anelu at geisio barn plant o gartrefi Cymraeg ei hiaith a phlant sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, a byddwn yn cydweithio â sefydliadau sy'n bartneriaid i'w gwahodd i ymgynghori â ni.

Mae addysg yn un o'r meysydd polisi sy'n cael effaith anghymesur ar blant a phobl ifanc, a bydd y camau gweithredu a'r nodau yn un ffynhonnell o wybodaeth sy'n llywio'r asesiad. O fewn y maes polisi hwn, bydd y camau gweithredu a'r nodau yn ymwneud ag ysgolion yn ogystal ag addysg bellach ac addysg uwch. Mae argymhellion o'r fath yn cynnwys adolygu polisiau gwahardd o'r ysgol a chynyddu'r gynrychiolaeth o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y cwricwlwm ac o fewn y gweithlu fel athrawon, a bydd hyn i gyd o fantais i bob plentyn a phobl ifanc, yn enwedig y rhai o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Yn ychwanegol at hyn, rhoddodd y dystiolaeth o adroddiad y Comisiynydd Plant Coronafeirws a fi: Profiadau plant o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleafrifol yng Nghymru ([www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/Briefing\\_Report\\_W\\_2020\\_FINAL.pdf](http://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/Briefing_Report_W_2020_FINAL.pdf)) gipolwg ar y sefyllfa, megis y ffaith "bod plant a phobl ifanc BAME yn fwy tebygol o fod ag aelodau o'r teulu y mae'r Coronafeirws wedi effeithio arnynt, ac yn fwy tebygol o fod wedi dioddef profedigaeth". Bydd effaith hyn yn parhau, a bydd yn effaith nad oes modd ei weld eto. Mae'r gwahaniaethau hyn mewn profiadau yn faterion sy'n ganolog i'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

Mae cyd-greu yn un o'r egwyddorion creiddiol sy'n sail i'n dull gweithredu. Mewn cydweithrediad â Thim Cymorth Ieuencid Ethnig, rydym wedi cynnal sesiynau gosod gweledigaeth gyda phlant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol iddynt rannu eu barn er mwyn llywio gweledigaeth, cenhadaeth a diben y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol. Mae rhai o'r plant a'r bobl ifanc o'r farn y dylai'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol gael cenhadaeth gyfunol ar gyfer Cymru sy'n wrth-hiliol, teg a chymdeithasol gyfiawn, ac sy'n dathlu pob ffurf ar amrywiaeth. Bydd ein ymgynghoriad ar gael mewn fformat hawdd ei ddeall, ynghyd â chynnwys fideo sydd wedi'i anelu'n benodol at bobl ifanc. Byddwn yn gweithio â chydweithwyr ar draws Adran Addysg Llywodraeth Cymru er mwyn cyrraedd pobl ifanc a'u gwahodd i ymateb i'r ymgynghoriad mewn fformat o'u dewis.

# Eglurwch sut y mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant

Mae'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn parhau i fynd rhagddo, ond efallai y bydd effeithiau a ragfynegir nad ydynt yn ganlyniadau bwriadol i'r cynnig. Er enghraifft, gwyddom fod pandemig COVID-19 wedi cael effaith anghymesur ar gymunedau ethnig leiafrifol. Bydd gan y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol effaith gronnu ar blant a phobl ifanc gan fod y nodau a'r camau gweithredu ar draws nifer o feysydd polisi yn ceisio mynd i'r afael â'r materion y tynnwyd sylw atynt yn adroddiad Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol Pobl dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig COVID-19. Yn ychwanegol at hyn, o fewn y thema addysg rydym wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael â bwlio hiliol mewn ysgolion a rhoi cefnogaeth i bobl ifanc gyda'u profiadau mewn addysg uwch. Mae pobl ifanc Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi helpu i lywio gweledigaeth, cenhadaeth a diben y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol drwy weithdai gosod gweledigaeth a gynhaliwyd mewn cydweithrediad â'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig.

Bydd y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn ystyried ffyrdd y gellir darparu cefnogaeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol a sut effaith a gaiff hyn ar bobl ifanc Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, yn enwedig mewn perthynas ag addysg ar bob lefel, ysgolion a gofal cymdeithasol.

Mae nifer o gamau gweithredu eisoes wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol yn y system addysg yng Nghymru, gan gynnwys y camau a nodir yn Cenhadaeth ein Cenedl i leihau'r bwll cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg decach (Llywodraeth Cymru, 2020b). Yn fwyaf nodedig, mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn 2022, mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Cyngori Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd (Llywodraeth Cymru, 2020c).

Bydd y Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd yn goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu adnoddau dysgu a nodi bylchau yn yr adnoddau neu'r hyfforddiant presennol yn ymwneud â chymunedau ethnig leiafrifol, eu cyfraniadau a'u profiadau. Bydd hyn o fudd i bob person ifanc, gan gynnwys pobl ifanc Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Bydd yr ymgynghoriad ar gael mewn nifer o ieithoedd, gan gynnwys Cymraeg, Saesneg, Iaith Arwyddion Prydain ac ieithoedd cymunedol eraill. Mae'r ymgynghoriad yn anelu at geisio barn plant o gartrefi Cymraeg ei hiaith a phlant sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, a byddwn yn cydweithio â sefydliadau sy'n bartneriaid i'w gwahodd i ymgynghori â ni.

Yn seiliedig ar y themâu trawsbynciol a fu'n sail i'r 8 cyfarfod bord gron, **dyma erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn<sup>1</sup> sydd fwyaf perthnasol i'r cynnig:**

- **ERTHYGL 2 (Peidio â gwahaniaethu)**  
Mae'r hawliau a nodir Yn Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gymwys i bob plentyn o ba bynnag hil, lliw, rhyw, iaith, crefydd ethnigrwydd, anabled neu unrhyw statws arall.
- **ERTHYGL 8 (hunaniaeth)**  
Mae gan bob plentyn yr hawl i'w hunaniaeth – gan gynnwys eu cenedligrwydd, enw a'u perthynas gyda theulu. Pan fo plentyn yn cael ei amddifadu o un neu ragor o elfennau ar ei hunaniaeth, bydd y wladwriaeth yn gweithredu i'w sefydlu eto.
- **ERTHYGL 12 (parchu barn y plentyn)**  
Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn ar faterion sy'n effeithio arnynt, ac i'r safbwyntiau hyn gael eu hystyried.
- **ERTHYGL 13 (rhyddid mynegiant)**  
Mae gan bob plentyn yr hawl i ddarganfod a dosbarthu gwybodaeth ac i fynegi eu syniadau – trwy siarad, ysgrifennu, celf neu unrhyw fath arall o fynegiant.

- **ERTHYGL 23 (plant anabl)**  
Mae gan blant anabl yr hawl i fwynhau bywyd llawn, gydag urddas, ac i gymryd rhan cyn belled ag y bo modd yn eu cymuned. Dylai'r llywodraeth gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.
- **ERTHYGL 24 (iechyd a gofal iechyd)**  
Mae gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd gorau posibl ac i ofal iechyd. Dylai'r wladwriaeth sicrhau bod gan blant wasanaethau gofal iechyd, bwyd maethlon, dŵr glân, amgylchedd glân a gwybodaeth am ofal iechyd. Dylai gwledydd cyfoethocach gefnogi gwledydd tlotach yn hyn o beth.
- **ERTHYGL 27 (safon byw digonol)**  
Mae gan bob plentyn yr hawl i safon byw boddhaol i'w alluogi i dyfu a datblygu. Rhieni sy'n gyfrifol am ddarparu hyn. dylai'r wladwriaeth gefnogi lle bo angen, yn enwedig mewn perthynas â maeth, dillad a thai.
- **ERTHYGL 29 (datblygiad ac addysg plant)**  
Dylai addysg helpu i ddatblygu personoliaeth, doniau a galluoedd meddyliol a chorfforol pob plentyn i'r eithaf. Dylai ddatblygu parch plant at eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill, i'w rhieni, i'w diwylliant eu hunain a diwylliannau pobl eraill, ac i'r amgylchedd naturiol.
- **ERTHYGL 30 (grwpiau lleiafrifol a chynhenid)**  
Mae gan blentyn o grŵp lleiafrifol yr hawl i fwynhau ei ddiwylliant ei hun, ymarfer ei grefydd ei hun a defnyddio ei iaith ei hun.
- **ERTHYGL 31 (chwarae a gweithgareddau diwylliannol ac artistig)**  
Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol.

Ceir sylfaen dystiolaeth sylweddol yn ymwneud ag anghydraddoldeb hiliol yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig yn ehangach. Mae'r dystiolaeth yn dangos anfanteision cronus ac yn tynnu sylw at ystod o rwystrau tebygol sy'n wynebu plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru, ac mae'n dangos yr her sylweddol sydd o'n blaenau i gyflawni cydraddoldeb mewn perthynas â deilliannau ar draws yr holl grwpiau. Mae rhain yn cynnwys canlyniadau iechyd gwael, tebygolrwydd uwch o brofi tlodi ac amgylchiadau byw gwael. Mae'r anfanteision cronus a chynhenid hyn yn symptomau o hiliaeth strwythurol, systemig a sefydliadol; mae'n cymdeithas wedi'i strwythuro mewn ffordd sy'n allgáu, neu'n rhoi rhwystrau sylweddol yn llwybr plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol rhag cael canlyniadau cyfartal mewn bywyd. Bydd y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn hyrwyddo, cefnogi a gwneud y mwyaf o'r hawliau sydd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn enwedig y rhai y sonnir amdanynt uchod. Mae hyn oherwydd bod hiliaeth yn treiddio i bob agwedd ar fywyd, megis hunaniaeth, ansawdd gofal iechyd ac addysg, yn ogystal â safon bywyd<sup>2</sup>. **Mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn anelu at gynyddu mynediad plant Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol at eu hawliau neu iwasanaethau a/neu adnoddau sy'n rhoi mynediad at hawliau, yn ogystal â galluogi plant i gymryd rhan a defnyddio'u hawliau. Er hynny, ynwaith y bydd y gwaith o weithredu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol wedi'i gwblhau, bydd angen profi'r camau gweithredu ar gyfer pob grŵp o blant a phobl ifanc yn ogystal blant a phobl ifanc o gefndiroedd ethnig leiafrifol, fel plant anabl o gefndir ethnig leiafrifol neu blant**

LGBTQI+ o gefndir ethnig leiafrifol, i weld a fydd gwahaniaethau i ferched a bechgyn, plant iau neu blant hŷn. Gall hyn greu canlyniadau anfwriadol.

**Ni rhagwelir unrhyw effeithiau negyddol ar hawliau plant o'r cynnig hwn. Fodd bynnag, caiff yr Asesiad Effaith Integredig hwn ei adolygu wrth i'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol gael ei ddatblygu a'i weithredu.**